



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Yr Eifl  
Trefor  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL54 5LU**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2015**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ym mhentref Trefor sydd oddeutu tair milltir ar ddeg o dref Caernarfon yng Ngwynedd. Mae 50 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Maent wedi'u trefnu'n ddau ddosbarth oed cymysg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf. Nid oes yr un disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae gan 22% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol. Nid oes yr un disgybl sydd â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Mae oddeutu 12% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, sydd yn is na'r ffigur cenedlaethol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Yr Eifl yn 2014-2015 yw £4,522. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £2,961. Mae Ysgol Yr Eifl yn safle 29 o'r 97 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 1997.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn ystod yr Hydref 2008.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Digonol</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Digonol</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- safonau rhifedd yn dda drwy'r ysgol;
- disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni'n dda mewn llythrennedd a rhifedd;
- safonau llafaredd a darllen yng nghyfnod allweddol 2 yn dda;
- profiadau dysgu, gan amlaf, yn bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus;
- bron pob disgybl yn ymddwyn mewn modd cyfrifol; a
- chyfluoedd cyson i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu.

Er hynny:

- mae diffyg rhuglder a chywirdeb yn ysgrifennu disgyblion cyfnod allweddol 2; ac
- mae cyfraddau presenoldeb yn is nag ydynt mewn ysgolion tebyg.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- ffocws clir yn yr ysgol ar godi a chynnal safonau;
- y llywodraethwyr yn cyflawni eu rôl strategol yn effeithiol;
- y pennaeth, staff a'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n effeithiol i hunanarfarnu;
- y cynllun datblygu yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad yr ysgol;
- ystod o bartneriaethau yn cyfrannu'n gryf at wella safonau a lles disgyblion;
- yr ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu gref.

Er hynny, nid oes:

- trefniadau addas i staff i gynllunio a monitro'r cwricwlwm ar y cyd; na
- threfn briodol ar gyfer monitro effaith gweithredu blaenoriaethau'r cynllun datblygu ar safonau a darpariaeth.

## Argymhellion

- A1 Codi safon ysgrifennu yng nghyfnod allweddol 2
- A2 Sefydlu gwell cyfleoedd i staff gynllunio ar y cyd er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n fwy systematig o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2
- A3 Monitro effaith y cynllun datblygu ar safonau a darpariaeth yn fwy trylwyr
- A4 Gwella cyfraddau presenoldeb
- A5 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion bennu eu targedau eu hunain

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Digonol

#### Safonau: Digonol

O ystyried eu man cychwyn yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae gan bron pob un ddiddordeb brwd yn y eu tasgau, maent yn rhoi o'u gorau mewn gwersi ac yn cydweithio'n ddiwyd dros gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda ac yn effro i holi a gofyn cwestiynau. Mae disgyblion o bob oedran yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn rhwydd ac yn ei gymhwyso yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd newydd. Wrth fynd i'r afael â thasgau datrys problemau, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau meddwl.

Mae rhan fwyaf disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n rhwydd ar lafar ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa pan fyddant yn trafod eu gwaith. Erbyn diwedd y cyfnod, mae medrau llafar bron pob disgybl o safon dda ac maent yn sgwrsio'n hyderus gydag oedolion. Mae llawer o'r disgyblion yn troi o'u gwirfodd at lyfrau gyda'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl ac yn ystyrlon yn y Gymraeg ac ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Gallant drafod cynnwys eu llyfrau mewn manylder gan fynegi barn am eu hoff gymeriadau a digwyddiadau gan arddangos dealltwriaeth dda. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol i ystod o ddibenion a chyda chywirdeb cynyddol. Mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig ac yn greadigol wrth gofnodi eu profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwranddo'n astud yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau grŵp a dosbarth, er enghraifft wrth iddynt drafod yr achos o blaid ac yn erbyn cadw anifeiliaid prin mewn sw. Mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr hyderus ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, yn cywain gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau, megis llyfrau a gwefannau. Trwy'r cyfnod allweddol, mae llawer o'r disgyblion yn fedrus iawn wrth ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o lyfrau cyfeirio Saesneg i gefnogi eu gwaith yn y Gymraeg.

Er bod llawer o ddisgyblion yn ysgrifenu wrth hyderus, mae diffyg rhuglder a chywirdeb yn eu hysgrifennu yn amharu ar ansawdd a safon eu gwaith, yn arbennig yn eu gwaith ysgrifennu creadigol. Mae hwn yn ddiffyg pwysig sy'n arwain at ddiffyg cynnydd rhwng y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Er bod rhan fwyaf yn cynhyrchu llawysgrifen sy'n ddarllenadwy, mae'r safonau ar draws y cyfnod allweddol yn anwastad.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Mae'r disgyblion hyn yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Maent yn dehongli gwybodaeth wedi'i chyflwyno mewn graffiau neu ddiagramau gwahanol gyda chywirdeb da gan ddefnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn mynd i'r afael â thasgau rhifedd ymarferol yn hyderus ac yn systematig. Mae eu gallu i ddefnyddio ffeithiau rhif ac i wneud cyfrifiadau yn y pen, yn gryfder. Erbyn Blynnyddoedd 5 a 6, mae bron pob disgybl yn ymdrin â rhifau saith digid a chanrannau'n hyderus ac yn defnyddio nifer o strategaethau ar gyfer gwirio eu hatebion. Wrth ymwneud ag ymchwiliadau gwyddonol, mae'r disgyblion hyn yn casglu data o nifer o ffynonellau ac yn ei gyflwyno'n fedrus ar ffurf tablau a graffiau. Mae gallu'r rhan fwyaf yn y cyfnod allweddol i gymhwyso eu medrau rhifedd ar gyfer datrys problemau ymarferol, yn dda.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill tebyg, roedd cyfran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd deilliant 5 yn y tair blynedd diwethaf, gan amlaf, yn y 50% is mewn llythrennedd a mathemateg. Gydag eithriadau prin, roedd y gyfran a gyflawnodd ar y deilliant 6 dros y cyfnod, yn y 25% uchaf yn y ddau faes.

Yn ystod tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, gan amlaf wedi bod yn y 25% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd perfformiad yn 2013 ar lefel 4 yn y 25% uchaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth ond yn y 25% isaf mewn Cymraeg a Saesneg.

Dros yr un cyfnod, roedd perfformiad cyfnod allweddol 2 ar lefel 5 mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth, gan amlaf, yn y 50% uwch o ysgolion tebyg. Fodd bynnag, roedd perfformiad mathemateg mewn dwy o'r pedair blynedd yn y 50% isaf. Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae merched a bechgyn yn cyflawni crystal â'i gilydd.

### **Lles: Digonol**

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyd a diod iach. Mae ganddynt hefyd ymwybyddiaeth dda o effaith lesol gweithgarwch corfforol, er enghraifft gwersi nofio neu gerdded llwybrau lleol, ar eu hiechyd a'u lles. Maent oll yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn rhydd oddi wrth unrhyw gam-drin corfforol neu eiriol gan ddisgyblion eraill.

Mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, mae bron pob disgybl yn ymddwyn mewn modd cyfrifol. Maent yn ystyriol o deimladau ac anghenion y disgyblion eraill o'u cwmpas ac yn arddangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Maent yn weithgar a brwdfrydig, yn cydweithio'n gytûn a diwyd dros gyfnodau estynedig ac yn wynebu heriau newydd yn hyderus.

Manteisia disgyblion o bob oedran yn dda ar gyfleoedd cyson i leisio barn ac i wneud penderfyniadau ynghylch eu dysgu. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau'n gydwobodol ac yn gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n ymwneud â bywyd pob dydd yr ysgol, er enghraifft rheolau'r buarth a threfniadau amser cinio. Byddant, yn ogystal, yn penderfynu pa elusennau y dylai'r ysgol eu cefnogi yn ystod y flwyddyn ac yn trefnu digwyddiadau megis dathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r profiadau gwerthfawr hyn yn cryfhau ymglymiad y disgyblion i gymuned yr ysgol ac yn datblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi bod yn y 25% isaf o ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu symbylus sydd yn bodloni diddordeb ac anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus.

Mae cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen o ansawdd uchel. Mae wedi ei seilio'n gadarn ar y chwe maes dysgu ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion chwarae rôl weithredol yn eu dysgu. Mae cynlluniau gwaith addas yng nghyfnod allweddol 2 sy'n sicrhau bod profiadau dysgu yn ymdrin â'r rhan fwyaf o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r ysgol yn ddiweddar wedi cychwyn ar y gwaith o ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ei chynlluniau gwaith.

Mae'r gweithgareddau llythrennedd a gaiff eu cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen yn ymestyn medrau disgyblion yn sylweddol. Er enghraifft, deilliodd gwaith ysgrifennu hynod o ddiddorol o astudiaeth y disgyblion o'r gwahanol flodau sy'n tyfu ar lan môr lleol. Fodd bynnag, mae diffyg manylder yng nghynllunio llythrennedd cyfnod allweddol 2, yn arbennig ar gyfer ysgrifennu, ac mae hyn yn effeithio ar safonau cyflawniad llawer o'r disgyblion.

Yn y ddau ddosbarth, mae'r amrediad eang o weithgareddau trawsgwricwlaidd a ddarperir yn sicrhau bod cyfleoedd ymarferol gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau rhifedd mewn amrywiaeth o gyd-destunau diddorol. Enghraifft dda o hyn yw ymchwiliad disgyblion cyfnod allweddol 2 i bellteroedd cymharol wahanol safleoedd hanesyddol yng Nghymru o bentref Trefor.

Trwy ddarparu ystod eang o brofiadau ychwanegol, tebyg i ymweliadau addysgol â mannau lleol fel Nant Gwrtheyrn a chydweithio gydag artist preswyl, caiff profiadau dysgu disgyblion â'u hymglymiad i'w cymuned eu cyfoethogi'n sylweddol.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig gyda phwyslais cryf yn y cwricwlwm ar hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion diwylliannol, amgylcheddol a hanesyddol Cymru.

Mae darpariaeth briodol ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang. Mae gan ddisgyblion rôl weithredol yn nhrefniadau ailgylchu'r ysgol ac mae pwyslais cryf mewn gwersi fel daearyddiaeth ac addysg grefyddol ar gynyddu eu hymwybyddiaeth o amodau byw plant mewn gwledydd tramor, megis Lesotto.

### **Addysgu: Da**

Mae'r addysgu effeithiol yn deillio ar ddysgu da sy'n cymell disgyblion i wneud eu gorau ac yn ennyn eu diddordeb a'u brwdfrydedd. Mae gan athrawon a chymorthyddion wybodaeth bynciol gadarn sy'n eu galluogi i ysbrydoli a herio'r disgyblion. Mae'r berthynas waith agos rhwng y staff a disgyblion yn creu ethos gweithgar a chynhaliol sy'n hybu dysgu effeithiol.



Mae'r arfer o rannu meini prawf llwyddiant gwersi gyda disgyblion yn arwain at ddisgwyliadau clir a gweithio cynhyrchiol. Mae'r cyfleoedd cyson sydd i ddisgyblion o bob oedran wneud dewisiadau ac i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu, yn nodweddion cryf o'r addysgu. Mae'r arferion hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at ddatblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol pob disgybl.

Drwy'r ysgol, mae athrawon yn gwahaniaethu tasgau yn briodol i fodloni anghenion pob disgybl. Maent yn holi disgyblion yn fedrus ac yn eu hannog i feddwl yn feirniadol am eu syniadau a'u gwaith.

Mae'r adborth ar lafar i grwpiau ac unigolion yn ystod sesiynau, ynghyd ag adborth ysgrifenedig yn dilyn marcio gwaith, yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent ei wneud ar hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r cyfleoedd achlysurol a gaiff disgyblion cyfnod allweddol 2 i hunanasesu ac i gael eu hasesu gan gyfoedion, yn cyfrannu'n dda tuag at eu cynnydd a'u lles. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd i ddisgyblion bennu eu targedau eu hunain.

Mae'r drefn ysgol gyfan ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn cael ei defnyddio'n effeithiol i gadw llygaid parhaus ar gynnydd pob disgybl ac i adnabod y rhai hynny sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni ar gynnydd eu plant o ansawdd priodol ac yn cynnwys sylwadau perthnasol ynghylch eu cyflawniadau a'u datblygiad personol.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a threfnus sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch ei disgyblion. Darperir amgylchedd cynnes a chroesawgar ac mae staff yn sicrhau bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol i sicrhau lles emosiynol a chorfforol pob disgybl ac mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Fodd bynnag, nid oes trefniadau digon clir gan yr ysgol ar gyfer hyrwyddo presenoldeb da.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Trwy ystod eang a diddorol o brofiadau, caiff datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei hyrwyddo'n llwyddiannus. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill yn cyfrannu'n effeithiol at greu ymdeimlad o gymdeithas wâr yn yr ysgol. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer cefnogi'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer. Mae cyd-drafod effeithiol rhwng y staff a chydlynnydd y maes. Maent yn rhannu unrhyw bryderon am ddisgyblion ac yn penderfynu ar raglenni ymyrraeth priodol. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd priodol ac, mewn ymgynghoriad â'r rhieni, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mewn achosion penodol, mae'r ysgol yn manteisio ar gydweithrediad asiantaethau allanol ynghyd â gwasanaethau cynnal yr awdurdod lleol.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol lle caiff pob disgybl hawl gyfartal i'r holl ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol. Rhoddir pwyslais cryf ar ddangos parch at bawb a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch. Mae teimlad o foddhad a hapusrwydd yn amlwg yng nghymuned yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymroi'n weithgar i godi arian at elusennau fel yr Ambiwlans Awyr, ac mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o gydraddoldeb.

Mae digon o le yn yr ystafelloedd ac mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'n darparu amgylchedd dysgu deniadol ac ysgogol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau pwrpasol sydd o ansawdd da yn y dosbarthiadau gan gynnwys offer cyfrifiadurol, sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan ddisgyblion ac athrawon i gefnogi dysgu ac addysgu. Gwna'r ysgol ddefnydd llawn o adnoddau'r gymuned i ychwanegu at y cwricwlwm a'i gyfoethogi.

Mae buarth a chae helaeth gyda digon o le ynddynt i ddisgyblion chwarae. Mae ardal y tu allan i'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio'n ddychmygus i ddarparu amgylchedd dysgu diddorol a chyffrous.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Digonol</b>
--	----------------

## Arweinyddiaeth: Digonol

Mae gan y pennaeth ffocws clir ar godi a chynnal safonau, darparu ar gyfer y Gymraeg a sicrhau lles y disgyblion. Mae'n trafod ac yn cydweithredu'n dda â staff mewnol, llywodraethwyr a'r rhieni er mwyn rhoi synnwyr o bwrpas i ddatblygiad yr ysgol. Er hynny, nid oes trefniadau clir ar waith i roi cyfleoedd rheolaidd i staff gynllunio ar y cyd a monitro ansawdd y cwricwlwm. O ganlyniad, mae diffyg dilyniant a pharhad ym mhrofiadau ysgrifennu disgyblion cyfnod allweddol 2 ac mae safonau yn anghyson.

Mae'r holl staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cyfrannu'n effeithiol i arweinyddiaeth a datblygiad yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu'n briodol at welliannau mewn addysgu a dysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac ymroddgar, ac yn cyflawni ei rôl strategol yn effeithiol. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol ac o'r prif feysydd sydd angen eu gwella. Mae'r pwyllgor safonau yn adolygu data perfformiad yn rheolaidd ac yn olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r ymweliadau â'r ysgol i fonitro agweddau o'r cwricwlwm ac i graffu ar lyfrau disgyblion, yn datblygu eu gwybodaeth am safonau gwaith ac ansawdd y ddarpariaeth addysgol yn effeithiol. Yn sgil hyn, mae'r llywodraethwyr yn gweithredu'n effeithiol fel 'cyfeillion beirniadol' i'r ysgol.

## Gwella ansawdd: Da

Mae'r pennaeth, staff a'r llywodraethwyr yn chwarae rhan strategol effeithiol yng ngweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol. Maent yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth

bwrpasol gan gynnwys data perfformiad disgyblion, craffu ar lyfrau, arsylwadau gwersi a barn disgyblion a rhieni, wrth ddod i gasgliadau. Caiff mewnbwn y llywodraethwyr o ran dadansoddi data a thracio cynnydd disgyblion ystyriaeth fanwl yn ystod y prosesau.

Ar y cyfan, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnig darlun cytbwys a chywir o'r ysgol. Mae cysylltiad amlwg rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella. Mae deilliannau'r prosesau hyn yn darparu asesiad priodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu.

Caiff y wybodaeth sy'n deillio o'r broses hunanarfarnu ei defnyddio'n effeithiol ar gyfer llunio cynllun datblygu pwrpasol sy'n pennu blaenoriaethau allweddol a meysydd ffocws ar gyfer gwella. Mae'n gynllun manwl sy'n nodi targedau perthnasol a phenodol, ac yn cynnwys meini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n cynnwys adolygiad dadansoddol o'r cynllun blaenorol ac yn rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff a'r dulliau ar gyfer monitro cynnydd. Fodd bynnag, er bod codi safonau ysgrifennu wedi'i adnabod fel maes i'w wella, nid yw wedi'i gynnwys fel blaenoriaeth yn y cynllun datblygu cyfredol.

Er bod yr ysgol yn rhoi blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol ar waith yn systematig yn ystod y flwyddyn, nid oes trefniadau monitro digon manwl ar gyfer arfarnu eu heffaith ar safonau a darpariaeth. Mae hyn yn amharu ar allu'r ysgol i gynnal gwelliannau pellach.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol cryf sy'n cyfrannu'n dda at wella safonau a lles y disgyblion yn ogystal â chynnig profiadau dysgu gwerthfawr. Mae perthynas glos gyda rhieni a chyfeillion sy'n cyfrannu arian yn flynyddol i brynu adnoddau ac offer.

Trwy gydweithio pwrpasol a rhannu arbenigedd ac arfer dda, mae'r ysgol wedi llwyddo i sefydlu partneriaeth gynhyrchiol gydag ysgolion eraill cyfagos. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safon gwaith disgyblion ac ar ddatblygiad proffesiynol staff, er enghraifft mewn agweddau o fathemateg.

Mae partneriaeth gadarn gyda'r gymuned leol. Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r cysylltiadau gyda busnesau a chymdeithasau fel y cwmni bysiau a'r seindorf, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn sylweddol. Mae hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder tuag at eu hardal leol.

Sefydlwyd perthynas lwyddiannus rhwng yr ysgol a'r cylch cyn-ysgol. Mae'r trefniant i ddisgyblion ymuno â'r ysgol yn achlysurol yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus gydag ysgolion uwchradd lleol ac mae trefniadau pontio addas ac ymweliadau cyson yn sicrhau trosglwyddo esmwyth.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd i godi safonau rhifedd a llythrennedd. Mae'r trefniadau mewnol i safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwylidig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Nid oes trefniadau ar gyfer cyd-safoni gwaith disgyblion ar ddiwedd blwyddyn 6 gydag ysgolion lleol.

## **Rheoli adnoddau: Digonol**

Caiff adnoddau'r ysgol eu rheoli yn effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio staff cynorthwyol yn fwriadus i roi cefnogaeth werthfawr i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa gyllidol ac mae gwariant yn cysylltu'n dda â thargedau a chynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r staff i gyd yn elwa o hyfforddiant sy'n cael ei drefnu yn ôl anghenion unigolion a blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i ymestyn eu harbenigedd a diweddarau eu strategaethau addysgu.

Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau amser cynllunio, paratoi ac asesu'r athrawon yn briodol ac yn cyfrannu'n dda tuag at godi safonau trwy'r ysgol, er enghraifft mewn addysg grefyddol.

Mae ystod amrywiol o adnoddau dysgu safonol yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion. Mae grant amddifadedd disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol ar gyfer codi safonau rhifedd a llythrennedd grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a chymorthyddion dysgu ac mae pob un o'r staff yn elwa ar gyfleoedd hyfforddi sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus ac yn gymorth i godi safonau drwy'r ysgol.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu broffesiynol sy'n galluogi staff i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd i gefnogi addysgu. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion eraill yn cael effaith gadarnhaol ar safonau gwaith disgyblion mewn mathemateg, yn ogystal â datblygu rôl a chyfrifoldebau llywodraethwyr.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

### 6612111 - Ysgol yr Eifl

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	47
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	11.8
Grŵp PYD	2 (8%<PYD<=16%)

#### Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2</b>	7	7	6
<b>Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)</b>	85.7	85.7	83.3
Chwartzel meincnod	2	3	3
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)</b>			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*
Chwartzel meincnod	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*
Chwartzel meincnod	*	*	*
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)</b>			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	7	7	6
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	85.7	85.7	83.3
Chwartzel meincnod	3	3	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	42.9	57.1	50.0
Chwartzel meincnod	1	1	1
<b>Datblygiad mathemategol (MDT)</b>			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	7	7	6
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	85.7	85.7	83.3
Chwartzel meincnod	3	3	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	0.0	71.4	50.0
Chwartzel meincnod	4	1	1
<b>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)</b>			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	7	7	6
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	85.7	100.0	83.3
Chwartzel meincnod	4	1	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	85.7	85.7	50.0
Chwartzel meincnod	1	1	3

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwytodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartzel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartzel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartzel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6612111 - Ysgol yr Eifl

Nifer y disgyblion ar y gofrestr

47

Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd

11.8

Grŵp PYD

2 (8%<PYD<=16%)

**Cyfnod allweddol 2**

	2011	2012	2013	2014
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6</b>	7	5	*	*
<b>Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)</b>	100.0	100.0	*	*
Chwarterl meincnod	1	1	*	*
<b>Saesneg</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	7	5	*	*
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	100.0	*	*
Chwarterl meincnod	1	1	*	*
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	57.1	80.0	*	*
Chwarterl meincnod	1	1	*	*
<b>Cymraeg iaith gyntaf</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	7	5	*	*
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	85.7	100.0	*	*
Chwarterl meincnod	2	1	*	*
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	57.1	100.0	*	*
Chwarterl meincnod	1	1	*	*
<b>Mathemateg</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	7	5	*	*
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	100.0	*	*
Chwarterl meincnod	1	1	*	*
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	28.6	40.0	*	*
Chwarterl meincnod	3	2	*	*
<b>Gwyddoniaeth</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	7	5	*	*
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	100.0	*	*
Chwarterl meincnod	1	1	*	*
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	57.1	60.0	*	*
Chwarterl meincnod	1	1	*	*

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarterl meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarterl meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarterl meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

#### Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	21	21 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	22	19 86%	3 14%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	22	22 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	22	22 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	23	20 87%	3 13%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	21	19 90%	2 10%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	21	21 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	23	23 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	19	16 84%	3 16%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	22	20 91%	2 9%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	22	19 86%	3 14%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	22	20 91%	2 9%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

William Williams	Arolygydd Cofnodol
Hazel Hughes	Arolygydd Tîm
David Jenkins	Arolygydd Lleyg
Bethan Bleddyn	Arolygydd Cymheiriaid
Cai Larsen	Enwebai



## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.